Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Tachwedd 2023

1. Y cefndir

Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

1. Cyflwynwyd y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)[1] (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 19 Mehefin 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

2. Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"Make provision to prevent public bodies from being influenced by political or moral disapproval of foreign states when taking certain economic decisions, subject to certain exceptions; and for connected purposes."*[2]

3. Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir bwriad y Bil fel a ganlyn:

> *"... prevent public bodies when making decisions about procurement and investment from considering a country or territory of origin or other territorial considerations in a way that indicates political or moral disapproval of a foreign state."*[3]

4. Fel y nodir yn ei Nodiadau Esboniadol, mae'r Bil hefyd yn bwriadu gwahardd cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddo rhag cyhoeddi datganiad sy'n nodi eu bod yn bwriadu ymdrin ag ystyriaethau tiriogaethol mewn ffordd sy'n awgrymu anghymeradwyaeth foesol neu wleidyddol ynghylch y ffordd y mae gwlad dramor yn ymddwyn, wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael neu fuddsoddi.[4]

5. Mae'r Bil wedi cwblhau cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin; mae dyddiad ar gyfer Trydydd Darlleniad Tŷ'r Cyffredin i'w gyhoeddi.

[1] Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor), fel y'i cyflwynwyd (Bil 325)
[2] Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)
[3] Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor), Nodiadau Esboniadol, paragraff 1
[4] Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor), Nodiadau Esboniadol, paragraff 30

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

6. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

7. Ar 8 Medi 2023, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

8. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 24 Tachwedd 2023.[6]

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

9. Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 10 i 38 o'r Memorandwm:

- cymal 1 (Gwahardd anghymeradwyaeth ynghylch y ffordd y mae gwlad dramor yn ymddwyn);
- cymal 2 (Cymhwyso i benderfyniadau caffael a buddsoddi);
- cymal 3 (Eithriadau);
- cymal 4 (Gwaharddiad cysylltiedig ar ddatganiadau);
- cymalau 5 i 11 (yn ymwneud â gorfodi);
- cymal 14 (Perthynas â deddfwriaeth gaffael);
- cymal 15 (Newidiadau cysylltiedig i gyfyngiadau llywodraeth leol ar gontractau);
- cymal 16 (Rheoliadau); a

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor), 8 Medi 2023
[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor), 12 Medi 2023

- Rhan 2 (Eithriadau ar gyfer mathau penodol o ystyriaeth) o'r Atodlen.

10. Mae Llywodraeth y DU o'r farn mai dim ond ar gyfer cymalau 1 a 4 o'r Bil y byddai'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio o ran Cymru.

11. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cydnabod bod y Bil yn gymwys i broses llywodraethau datganoledig o wneud penderfyniadau ac y gellir honni ei fod yn addasu cymhwysedd gweithredol.[7]

Pwerau dirprwyedig

12. Mae'r Bil yn cynnwys ystod o bwerau dirprwyedig i'w rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, gan gynnwys y pŵer safonol i gychwyn drwy reoliadau (cymal 17(4)).

13. Mae'r pwerau dirprwyedig yn y Bil fel a ganlyn:

- cymal 3(2) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet i ddiwygio'r Atodlen ar eithriadau ar gyfer cyrff a swyddogaethau penodol ac ar gyfer mathau penodol o ystyriaeth i (a) ychwanegu disgrifiad o benderfyniadau ar eithriadau ar gyfer cyrff a swyddogaethau penodol, (b) ychwanegu disgrifiad ar gyfer mathau penodol o ystyriaeth, ac (c) diwygio neu ddileu disgrifiad o benderfyniad neu ystyriaeth;

- cymal 3(5) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ddatgymhwyso'r Bil mewn cysylltiad â gwlad neu diriogaeth benodol;

- cymal 6(6) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet newid yr awdurdod gorfodi (gan gynnwys drwy ddarparu bod un neu nad oes un) mewn perthynas â disgrifiad penodol o benderfyniad neu ddatganiad. Bydd gan awdurdod gorfodi hefyd y pŵer i ymchwilio i achosion posibl o dorri'r gyfraith, llywio cydymffurfedd a gosod dirwyon ariannol;

- cymal 10(1) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu, drwy reoliadau, ar y gosb ariannol uchaf i berson sydd o fewn cwmpas y Bil ac sy'n torri'r darpariaethau;

[7] Nodiadau Esboniadol, Atodiad A

- cymal 10(2) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch materion y mae rhaid i'r awdurdod gorfodi, neu na chaiff yr awdurdod gorfodi, roi sylw iddynt wrth arfer ei bwerau o dan gymal 9 i osod cosbau ariannol;

- cymal 14(6) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn perthynas ag (a) deddfwriaeth sydd wedi'i diddymu, ei dirymu neu ei haddasu gan adran 118 o Ddeddf Caffael 2023 (diddymu etc) cyn i'r Ddeddf honno ddod i rym, at y dibenion sy'n debyg i gymal 12 ar y berthynas â deddfwriaeth gaffael neu baragraff 2 o'r Atodlen, neu (b) Deddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014 neu unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf honno;

- cymal 15(3) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i eithrio materion penodol o gwmpas adran 17(5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 neu erthygl 19(4)(f) o Orchymyn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) (Gogledd Iwerddon) 1992 (O.S. 1992/810 (G.I. 6)); a

- chymal 17(5) – pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dod i rym unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon; a chaiff rheoliadau o'r fath wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

14. O'r naw pŵer dirprwyedig hyn, pwerau Harri'r Wythfed yw cymalau 3(2), 3(5), 6(6), 14(6) a 15(3).

Safbwynt Llywodraeth Cymru

15. Mae'r Gweinidog yn nodi'r rhesymau pam y mae o'r farn na ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil ym mharagraff 42 o'r Memorandwm. Mae'n nodi:

> *"Fy marn i yw nad yw'n briodol mabwysiadu'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU ar gyfer Cymru am y rhesymau canlynol:*
>
> *a) Nid yw'n glir pa broblem mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â hi drwy gynnwys Llywodraeth Cymru yn y Bil anghymesur a diangen hwn. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ymddwyn mewn modd cyfrifol wrth gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae eisoes nifer o fesurau diogelu ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol trin cynigwyr o wledydd lle mae cytundeb masnach cymwys yn berthnasol mewn modd teg a chyfartal. Er enghraifft, yng Nghytundeb*

Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau a chyfraith gaffael bresennol.

b) Yn yr un achos lle y penderfynodd Llywodraeth y DU na ddylai cyflenwyr o Rwsia gael eu cefnogi yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin, roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r polisi tramor hwn yn llawn ac yn gweithredu polisi tebyg. Nid yw'n glir sut byddai cyflwyno'r Bil hwn wedi arwain ar ganlyniad gwahanol.

c) Mae'r darpariaethau'n ceisio cyfyngu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi. Nid ydym yn derbyn y dylid addasu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru yn y ffordd hon, ac nid yw'n glir beth mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael ag ef drwy wneud hynny."[8]

16. Mae'r Gweinidog yn ychwanegu:

"Beth bynnag, nid wyf yn gallu argymell rhoi cydsyniad tra bo cwestiynau ynghylch cydnawsedd y Bil hwn â hawliau confensiwn a chyfraith ryngwladol. Yn ogystal, rwy'n nodi bod y Bil hwn wedi cael ei feirniadu'n helaeth, ymhlith y gymuned gyfreithiol a'r gymuned academaidd, mewn perthynas â'r ffordd mae wedi cael ei ddrafftio a sut y bwriedir ei weithredu'n ymarferol. Rwy'n rhannu'r pryderon hyn ac mae rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â nhw pan fydd Senedd y DU yn craffu ar y Bil."[9]

[8] Y Memorandwm, paragraff 42
[9] Y Memorandwm, paragraff 43

2. Trafodaeth y pwyllgor

17. Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 6 Tachwedd 2023.[10] Yn yr un cyfarfod, gwnaethom hefyd nodi gohebiaeth a gyfnewidiwyd rhwng y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Gweinidog mewn cysylltiad â'r Memorandwm.[11]

18. Yn dilyn cyfnewid gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Gweinidog, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 9 Tachwedd 2023.[12] Ymatebodd y Gweinidog ar 15 Tachwedd 2023.[13]

19. Ar 20 Tachwedd 2023, gwnaethom drafod ymateb y Gweinidog, a chytuno ar ein hadroddiad.[14]

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

20. Nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Llywydd ar 27 Mehefin 2023 i esbonio y byddai'r Memorandwm yn cael ei osod y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos a ddarperir yn Rheol Sefydlog 29.2(i), "o ystyried ehangder y Bil hwn, ac i sicrhau bod gan bwyllgorau LCM cynhwysfawr i'w ystyried".[15]

21. Nodwn fod y Memorandwm wedi'i osod wedyn 11 o wythnosau ar ôl cyflwyno'r Bil. Er gwaethaf natur eang y Bil, hoffem atgoffa'r Gweinidog o bwysigrwydd rhoi gwybodaeth i'r Senedd sy'n ymwneud â deddfwriaeth arfaethedig mewn meysydd datganoledig mewn modd amserol.

22. Nodwn hefyd ddatganiad y Gweinidog ym mharagraff 7 o'r Memorandwm "nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfranogi yn y gwaith o ddatblygu'r Bil hwn".

23. At hynny, nodwn fod y Bil yn cynnwys pwerau dirprwyedig eang, gan gynnwys pwerau Harri'r Wythfed, i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet.

---

[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Tachwedd 2023
[11] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 16 Hydref 2023; Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Tachwedd 2023
[12] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Tachwedd 2023
[13] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Tachwedd 2023
[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Tachwedd 2023
[15] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 27 Mehefin 2023

Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

24. Nodwn fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynghylch pa rai o gymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

25. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm.

26. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 11 a 14 i 16 o'r Bil, a Rhan 2 o'i Atodlen.

27. Nodwn ymateb y Gweinidog i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sy'n nodi nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 12 a 13 o'r Bil gan eu bod yn gymwys i bensiynau gweithwyr llywodraeth leol, sy'n fater a gedwir yn ôl.[16] Rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw.

Casgliad 1. Rydym yn ystyried bod y cymalau o'r Bil a nodir yn y Memorandwm yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

Darpariaethau y bernir eu bod yn addasu pwerau Gweinidogion Cymru

28. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru bod cymal 15 o'r Bil (Newidiadau cysylltiedig i gyfyngiadau llywodraeth leol ar gontractau) yn "addasu gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yn adran 115 o'r Bil Caffael".[17] Nodwn fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi ceisio eglurhad gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r asesiad hwn, a chafodd yr ymateb a ganlyn:

> *"... mae Cymal 15(3)(a) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddatgymhwyso adran 17(5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae Cymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (neu Weinidog y Goron) anghymwyso'r ddyletswydd o dan adran 17(1) o Ddeddf 1988, i'r graddau y mae'n berthnasol i awdurdod perthnasol. Gall rheoliadau o'r fath gynnwys dadgymhwyso'r ddyletswydd yn adran 17(1) o Ddeddf 1988 fel y mae'n ymwneud â phob mater anfasnachol (gweler adran 17(5) o*

[16] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Tachwedd 2023
[17] Y Memorandwm, paragraff 32

> *Ddeddf 1988) neu'r rhai a bennir (cymal 115(3)(d) yn gymwys). Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Gaffael sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru neu sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau neu i ddarparu canllawiau mewn perthynas ag awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Felly, gellid dadlau bod cymal 15(3)(a) o'r Bil yn newid gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yng nghymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael. Fodd bynnag, bydd y pŵer sydd wedi'i newid yn parhau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddatgymhwyso darpariaethau adran 17(1) o Ddeddf 1988 ar gyfer awdurdodau contractio perthnasol yng Nghymru fel y gwelant yn dda."*[18]

29. Gwnaethom geisio eglurhad pellach gan y Gweinidog mewn cysylltiad â'r mater hwn, a holi a ddylai'r cyfeiriad at adran 115(2) o Ddeddf Caffael 2023 fod at adran 111 o'r Ddeddf honno yn hytrach.[19] Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"Yn fy llythyr blaenorol, defnyddiais rifau cymalau a oedd i'w gweld ar gopi print o Fil Caffael a oedd ar gael adeg ei ysgrifennu. Cafodd gwelliannau eu gwneud i'r 'Bil' Caffael, gan symud rhifau'r cymalau ymlaen. Mae hyn yn golygu, bod 'Disapplication of duty in section 17 of the Local Government Act 1988' bellach yn adran 116 yn y Ddeddf Caffael. Cyfeiriwch felly at adran 116 ac wedyn at adran 116(3)(d), o ran eich cwestiwn am bwerau Gweinidogion Cymru ar gyfer datgymhwyso Adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988, ac nid at adran 115."*[20]

30. Rydym yn nodi ymateb y Gweinidog, ac yn cytuno y dylai'r cyfeiriad at adran 115 o'r Bil Caffael o fewn paragraff 32 o'r Memorandwm fod yn gyfeiriad at adran 116 o Ddeddf Caffael 2023 fel y mae erbyn hyn.[21]

---

[18] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Tachwedd 2023
[19] Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 9 Tachwedd 2023
[20] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 15 Tachwedd 2023
[21] Deddf Caffael 2023, adran 116

Cydnawsedd y Bil â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chyfraith ryngwladol

31. Nodwn ddatganiad y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ymddwyn mewn modd cyfrifol wrth gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae eisoes nifer o fesurau diogelu ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol trin cynigwyr o wledydd lle mae cytundeb masnach cymwys yn berthnasol mewn modd teg a chyfartal. Er enghraifft, yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau a chyfraith gaffael bresennol."*[22]

32. Nodwn yr enghraifft a roddwyd gan y Gweinidog sef:

> *"Yn yr un achos lle y penderfynodd Llywodraeth y DU na ddylai cyflenwyr o Rwsia gael eu cefnogi yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin, roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r polisi tramor hwn yn llawn ac yn gweithredu polisi tebyg."*[23]

33. Ymhellach, rydym yn nodi'r honiad a ganlyn a wnaed gan y Gweinidog yn y Memorandwm, ac yn tynnu sylw'r Senedd ato:

> *"Beth bynnag, nid wyf yn gallu argymell rhoi cydsyniad tra bo cwestiynau ynghylch cydnawsedd y Bil hwn â hawliau confensiwn a chyfraith ryngwladol. Yn ogystal, rwy'n nodi bod y Bil hwn wedi cael ei feirniadu'n helaeth, ymhlith y gymuned gyfreithiol a'r gymuned academaidd, mewn perthynas â'r ffordd mae wedi cael ei ddrafftio a sut y bwriedir ei weithredu'n ymarferol. Rwy'n rhannu'r pryderon hyn ac mae rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â nhw pan fydd Senedd y DU yn craffu ar y Bil."*[24]

34. Fel Pwyllgor, rydym yn gyfrifol am ystyried effeithiau cyfansoddiadol materion allanol, gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol.

35. Mae'r setliad datganoli yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol a'r hawliau sydd yn y Confensiwn

[22] Y Memorandwm, paragraff 42(a)
[23] Y Memorandwm, paragraff 42(b)
[24] Y Memorandwm, paragraff 42

Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawliau'r Confensiwn).[25] Mae Cod Gweinidogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â chyfraith ryngwladol a rhwymedigaethau cytuniadau.[26]

36. Nid yw'r Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth am hawliau'r Confensiwn a chyfraith ryngwladol y mae ei honiad yn cyfeirio atynt; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bryderon a ddygwyd i sylw Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin gan sefydliadau rhyngwladol,[27] ac ymarferwyr cyfraith gyhoeddus[28] sy'n cefnogi'r honiad hwn.

37. O ran ein cyfrifoldeb am effeithiau cyfansoddiadol materion y DU a'r UE, mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE yn gosod dyletswyddau penodol ar y DU a'r UE i gydymffurfio â rhwymedigaethau o ran hawliau dynol a'u cydweithrediad o dan y cytundeb, ac ar gyfer cytundebau yn y dyfodol mae'n amodol ar barch at hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol. Mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'u rhestru'n benodol, fel y mae pwysigrwydd rhoi effaith i'r hawliau a'r rhyddidau yn y Confensiwn hwnnw yn ddomestig.[29] Felly, mae'n destun pryder mawr i ni glywed am bryderon y Gweinidog ynghylch cydnawsedd y Bil â hawliau'r Confensiwn.

38. At hynny, fel yr ydym wedi'i fynegi o'r blaen mewn cysylltiad â memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon[30] a'r Bil Mudo Anghyfreithlon,[31] credwn y gallai unrhyw benderfyniad gan y Senedd i gydsynio i Fil sy'n anghydnaws â chyfraith ryngwladol olygu ei fod yn cyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol. Byddai hyn yn golygu bod y Senedd yn gweithredu'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n groes i ysbryd y setliad datganoli.

Casgliad 2. Rydym yn rhannu pryderon y Gweinidog ynghylch cydnawsedd y Bil â chyfraith ryngwladol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

[25] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adrannau 81 a 82
[26] Llywodraeth Cymru, Cod y Gweinidogion, paragraff 13
[27] Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor): Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Human Rights Watch, Medi 2023
[28] Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor): Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Richard Hermer KC, Medi 2023
[29] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, Erthygl 524 ac Erthygl 763 [Saesneg yn unig]
[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Protocol Gogledd Iwerddon, Tachwedd 2022, Casgliad 7
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Mudo Anghyfreithlon, Mehefin 2023, Casgliad 3

Casgliad 3. Rydym yn ailadrodd ein safbwynt yr ydym wedi'i fynegi mewn perthynas â Biliau blaenorol sy'n ddarostyngedig i'r broses cydsyniad deddfwriaethol y gallai penderfyniad gan y Senedd i gydsynio i'r Bil gyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol ac y byddai'n golygu bod y Senedd yn gweithredu'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n groes i ysbryd y setliad datganoli.